YSGOL BRYNREFAIL
Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4AD

Pennaeth/Headteacher:
Mr. Eifion Jones, BSc.
☎ (01286) 672381
(01286) 672066
swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk
www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

Chwefror 2013

Annwyl Riant/Gyfaill

CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Ysgrifennaf atoch i ofyn yn garedig am eich cefnogaeth i'r Cyfeillion. Rydym fel Pwyllgor yn cyfarfod i drefnu gwahanol weithgareddau i godi arian i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae'r Cyfeillion yn ddiweddar wedi cyfrannu arian tuag at agweddau megis y bws mini newydd, gweithgareddau chwaraeon, Eisteddfod yr Ysgol, ayyb. **Rydym ar hyn o bryd yn casglu arian tuag at brynu offer TGC newydd i'r ysgol ar gyfer Medi 2013.** Mae llawer o'r rhain yn agweddau y mae'r gymuned hefyd yn cael budd ohonynt drwy'r defnydd helaeth o'r ysgol gan glybiau a mudiadau lleol.

Un ffordd y gellwch gefnogi'r Cyfeillion yw drwy **ymaelodi â 'Loteri YB' (Clwb 100 fel a fu)** am £1 y mis. Gallwch ymaelodi drwy gwblhau'r bonyn isod a'i ddychwelyd i Swyddfa'r Ysgol gyda taliad blwyddyn o £12 - arian parod neu siec yn daladwy i 'Cyfeillion Ysgol Brynrefail', os gwelwch yn dda. Efallai byddai'n well gennych wneud trefniant arched banc - amgaeaf ffurflen bwrpasol er hwylustod. Telir hanner incwm y Loteri yn ôl mewn gwobrwyon i'r aelodau.

Mae'r Pwyllgor bob amser yn awyddus i groesawu aelodau newydd. Cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol i adael eich enw a'ch rhif ffôn os oes gennych ddiddordeb ymuno â ni, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogwn bob cefnogaeth i'n gwaith a'n gweithgareddau.

Yn gywir,

Eifion Jones

Eifion Jones
Prifathro a Llywydd Cyfeillion Ysgol Brynrefail

LOTERI CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL - Ionawr i Rhagfyr 2013

Enw: _____ Teitl: _____ Ffôn: _____

Cyfeiriad: _____

_____ Côd Post: _____

Amgaeaf: Arched Banc ☐ Siec ☐ £12 arian ☐

Enw'r plentyn hynaf (os yn berthnasol): _____ Bl./Dosb.: _____

X:Prifathro:Llythyr Loteri YB Cymraeg